



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol

Rhagfyr 2015

OGL

ISBN digidol 978 1 4734 5404 0

© Hawlfraint y Goron 2015

WG27342

Cynnwys

<i>Adran 1 - Cyflwyniad</i>	1
1.1 Cefndir	
1.2 Pwrpas	
1.3 Perthynas â deddfwriaeth arall Llywodraeth Cymru	
<i>Adran 2 - Cefnogi Newid Diwylliant</i>	3
2.1 Grŵp Cyngori ar Gynllunio Cadarnhaol	
<i>Adran 3 - Stiwardiaeth Weithgar</i>	5
3.1 Pwrpas Statudol i'r System Gynllunio	
3.2 Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol	
3.3 Yr Iaith Gymraeg a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	
3.4 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	
3.5 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	
3.6 Apeliadau Cynllunio	
<i>Adran 4 - Gwellu Cydweithredu</i>	20
4.1 Cynlluniau Datblygu Strategol	
4.2 Cydbwyllgorau Cynllunio	
<i>Adran 5 - Gwellu Cyflawni'n Lleol</i>	26
5.1 Fframwaith Perfformiad Cynllunio	
5.2 Ceisiadau Cynllunio Uniongyrchol i Weinidogion Cymru	
5.3 Gwellu Proses Cynllun Datblygu Lleol	
5.4 Gwellu'r System Rheoli Datblygu (sy'n cynnwys y broses ceisiadau cynllunio, gorfodi ac adolygu'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd)	
<i>Adran 6 - Rheoli Cynllunio a Datblygu yng Nghymru - prosiect Comisiwn y Gyfraith</i>	39
<i>Atodiad 1:</i>	40
- Amserlen Gweithredu: Penderfyniadau ynglŷn â Pherfformiad a Chynllunio	
- Amserlen Gweithredu: Llunio Polisiâu a Chynlluniau	

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn rhwymedig i system gynllunio sy'n gadarnhaol, galluogol a chydnerth. Er mwyn dilyn yr agenda 'Cynllunio Cadarnhaol' yma a'i gyflawni, mae rhaglen o welliannau graddol yn cael ei gweithredu yn seiliedig ar fesurau a newidiadau a nodir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Gynllunio") a phapur ymgynghorol 'Cynllunio Cadarnhaol: Cynigion i Ddiwygio'r System Gynllunio yng Nghymru (Rhagfyr 2013 - Chwefror 2014).

Bu i'r Ddeddf Cynllunio dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf eleni ac mae'n gosod sylfaen ddeddfwriaethol allweddol ar gyfer cyflawni rhaglen gwella'r Llywodraeth ar gyfer y system gynllunio. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd, polisi a chanllawiau, yn ogystal â chyflwyno mesurau i gefnogi newid diwylliant.

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn nodi egwyddorion cyffredinol a fframwaith y ddeddf newydd. Fodd bynnag, yn ogystal â'r pwerau i roi gorchmynion cychwyn at ddiben rhoi grym i'w darpariaethau, mae'r Ddeddf Cynllunio hefyd yn cynnwys pwerau sy'n galluogi i fanylion llawn y ddeddf gael eu nodi mewn deddfwriaeth eilaidd, naill ai drwy orchymyn neu reoliadau. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn gofyn am swm sylweddol o ddeddfwriaeth eilaidd er mwyn rhoi grym a manylder i'r cyfreithiau a geir ynddi.

1.2 Pwrpas

Mae'r cynllun gweithredu yn:

- cyfuno'r amrywiol brosiectau / rhaglenni gwella a deddfwriaeth eilaidd ategol a ddarperir gan y Llywodraeth wrth iddi ddilyn ei hagenda cynllunio cadarnhaol; ac
- yn nodi blaenoriaethau ac amserlenni cyflawni'r Llywodraeth ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad, ac awgrym o'r amserlenni ar ôl Mai 2016 fydd yn destun cadarnhad gan Lywodraeth nesaf Cymru.

Ceir crynodeb o'r rhaglen gyflawni yn Atodiad 1 a rhoddir gwybodaeth fanylach yn adrannau perthnasol y cynllun gweithredu.

Pan fo'n berthnasol, mae'n cyfeirio at fwy o wybodaeth a manylion am y newidiadau a'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni. Wrth ddarllen y ddogfen yn electronig, mae mynediad i ffynonellau gwybodaeth eraill ar gael yn uniongyrchol drwy gyfrwng dolenni sydd wedi'u mewnbllannu yn y ddogfen - sy'n ymddangos fel testun wedi ei danlinellu mewn lliw gwahanol.

Mae'r amrywiol brosiectau a rhaglenni gwella wedi cael eu grwpio o dan bedair thema allweddol yn y ddogfen hon:

- Cefnogi Newid Diwylliant (Adran 2)
- Stiwardiaeth Weithgar (Adran 3)

- Gwella Cydweithredu (Adran 4)
- Gwella Cyflawni'n Lleol (Adran 5)

Mae Adran 6 y cynllun gweithredu yn rhoi gwybodaeth am brosiect sy'n cael ei gynnal gan Gomisiwn y Gyfraith ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i symleiddio a chyfuno deddfwriaeth cynllunio yng Nghymru.

1.3 Perthynas â deddfwriaeth arall Llywodraeth Cymru

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn rhan o gasgliad o ddeddfwriaeth ategol a chynigion polisi a ddyluniwyd i sefydlu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae'r system gynllunio yn offeryn pwysig o ran gwireddu nifer o amcanion a geir mewn nifer o Ddeddfau a Biliau cysylltiedig sydd ar hyn o bryd yn destun craffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn nodi nodau llesiant ar gyfer Cymru y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at eu gwireddu. Mae hyn y golygu bod rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y system gynllunio a'r gwelliannau fydd yn cael eu gwneud o ganlyniad i'r Ddeddf Cynllunio yn helpu i wireddu'r nodau hynny.

Bydd **Bil Amgylchedd (Cymru)** yn sefydlu proses statudol fodern ar gyfer cynllunio a rheoli ein cyfoeth naturiol mewn modd cyfunol a chynaliadwy, a bydd hefyd yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y system gynllunio, drwy gyfrwng y cynllun datblygu a'r systemau rheoli datblygu, yn chwarae rôl bwysig wrth wireddu nodau ac amcanion y Bil hwn.

Bydd **Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** yn gwneud gwelliannau i'r system bresennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy. Mae i'r system gynllunio rôl ganolog o ran cadwraeth a rheoli'r amgylchedd hanesyddol, a datblygwyd y cynigion yn y Bil i ategu'r diwygiadau yn y Ddeddf Cynllunio.

2. Cefnogi Newid Diwylliant

Dyluniwyd agenda Cynllunio Cadarnhaol er mwyn cefnogi a chyflawni system gynllunio gadarnhaol, galluogol a chydnerth yng Nghymru. Mae'r angen i greu newid cadarnhaol yn niwylliant y system gynllunio yn rhan ganolog o'r agenda hwn.

Mae'r sylfeini deddfwriaethol allweddol ar gyfer creu newid diwylliannol cadarnhaol yn cael eu nodi yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. Fodd bynnag, dim ond at ryw bwynt y gall deddfwriaeth ddylanwadu ar agweddau ac ymagweddau tuag at y system. Ni all wireddu'r newidiadau sydd eu hangen ar ei phen ei hun, ac mae'n rhaid i fesurau aneddfwriaethol ei hategu.

Er mwyn ategu'r ymagwedd ddeddfwriaethol, mae rhaglen waith ar wahân ar gyfer creu newid diwylliannol cadarnhaol eisoes ar y gweill. Ym mis Ebrill y llynedd gwahoddwyd grŵp arbenigol i roi cyngor ar sut i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Ar ôl ystyried eu canfyddiadau'n ofalus yn gynharach eleni, penderfynwyd peidio â sefydlu corff annibynnol newydd i gyflawni'r gwaith hwn. Yn hytrach, penderfynwyd ceisio sefydlu partneriaeth rhwng rhanddeiliaid allweddol.

2.1 Grŵp Cyngori ar Gynllunio Cadarnhaol

Cefndir

Mae'n rhaid i'r holl randdeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, dderbyn cyfrifoldeb am ddylanwadu a chreu newidiadau cadarnhaol i ddiwylliant y system cynllunio yng Nghymru. Er mwyn symud ymlaen â'r bartneriaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cyngori ar Gynllunio Cadarnhaol.

Bydd y Grŵp Cyngori hwn yn cyngori, cytuno ac yn cynorthwyo wrth gyflawni rhaglen waith flynyddol fydd yn dylanwadu ar ac yn creu newid diwylliannol cadarnhaol.

Cefnogir y Grŵp gan Lywodraeth Cymru a'r cadeirydd yw Prif Gynllunydd y Llywodraeth, ac mae'r aelodau yn gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
- Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru

Gall hefyd, o dro i dro, gyfethol unigolion ychwanegol i'r grŵp er mwyn darparu arbenigedd ac arweiniad.

Drwy gael ei hysbysu gan y gronfa dystiolaeth sy'n cefnogi'r agenda Cynllunio Cadarnhaol, bydd gwaith cychwynnol y Grŵp Cyngori yn canolbwyntio ar awdurdodau cynllunio lleol, a bydd arweinyddiaeth, cydnerthedd, sgiliau a

gwybodaeth a rhannu arferion da / arbenigedd yn feysydd allweddol i fynd i'r afael â hwy.

Pwrpas

Pwrpas y Grŵp Cyngori ar Gynllunio Cadarnhaol yw:

- Rhoi cyngor ymarferol ac arbenigol er mwyn hysbysu cynnwys a chyfeiriad rhaglen waith flynyddol.
- Cytuno ar ei chyflwyno er mwyn i'r Gweinidog Cymru perthnasol ei hystyried.
- Cynorthwyo a chefnogi wrth gyflawni.

Amserlen Gweithredu

Bydd y Grŵp Cyngori yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn er mwyn hysbysu a chynghori ar gynnwys rhaglen waith fydd i'w chyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gan y sefydliadau a gynrychiolir yn y Grŵp.

Mae'r rhaglen waith fydd yn cael ei chyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf (2016/2017) yn cael ei hystyried ar hyn o bryd gan y Grŵp Cyngori. Bydd y rhaglen y cytunir arni gan y Gweinidog Cymru perthnasol yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

3. Stiwardiaeth Weithgar

3.1 Pwrpas Statudol i'r System Gynllunio

Cefndir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio") yn nodi pwrpas statudol ar gyfer cynllunio yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru a chyryff cyhoeddus eraill, pan fyddant yn ymgymryd ag unrhyw gynllun datblygu neu swyddogaethau rheoli datblygiad, gyfrannu at wella llesiant Cymru wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r ddarpariaeth yn darparu cysylltiad uniongyrchol â gofynion ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) ("y Ddeddf Llesiant") ac mae'n ategu nodau ac amcanion y Ddeddf honno.

Mae'r ddarpariaeth allweddol a geir yn y [Ddeddf Cynllunio](#) yn cael ei nodi yn Adran 2 'Datblygu Cynaliadwy'. Mae eglurhad o'r adran hon i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf.

Pwrpas

Bydd y pwrpas statudol y cadarnhau ac yn egluro'r swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio datblygu, a dylid ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio yng Nghymru fel rhan o ddatblygu cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant.

Amserlen Gweithredu

Nodir yr amserlenni ar gyfer cychwyn Adran 2 y Ddeddf Cynllunio isod:

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
Pwrpas Statudol (Adran 2 y Ddeddf Cynllunio)	- Cychwyn Adran 2 - Ebrill 2016

Mae'r cysylltiad uniongyrchol â'r Ddeddf Llesiant yn golygu bod yr amserlen ar gyfer cychwyn Adran 2 y Ddeddf Cynllunio yn ddibynnol ar gywyn adrannau perthnasol y Ddeddf Llesiant, y disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Ebrill 2016.

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - yn y tymor byr bydd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn cael ei ddiweddarau er mwyn rhoi eglurder ac arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â sut y dylid ystyried nodau'r Ddeddf Llesiant wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Yn yr hirdymor, bydd PCC yn cael ei adolygu'n llawn er mwyn alinio ei bolisiâu cynllunio â'r nodau llesiant. I gael mwy o wybodaeth ewch i adran 3.2.

3.2 Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol

3.2.1 Polisi Cynllunio Cymru

Cefndir

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir cenedlaethol, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yn y system cynllunio drwyddi draw. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2002 a'r argraffiad cyfredol yw'r 7fed argraffiad. O'r cychwyn, sefydlwyd PCC ar egwyddorion cadarn datblygu cynaliadwy, ac mae hyn wedi tanategu'r system gynllunio ers hynny. Mae PCC yn cael ei ddiweddarau'n gyfnodol pan fo polisiâu cynllunio penodol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.

Bu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Llesiant") gyflwyno cyfres o nodau llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol, yn cynnwys pob awdurdod cynllunio, weithio tuag at eu gwireddu er mwyn gwella llesiant Cymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n bwysig bod polisi cynllunio yn parhau i adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn cael ei alinio â gofynion y Ddeddf Llesiant. Bydd PCC yn cael ei adolygu, er mwyn rhoi eglurhad ac arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â sut y dylid ystyried y nodau llesiant wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn digwydd mewn dau gam:

- 1) Bydd Pennod 4 PCC ar 'Gynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd' yn cael ei diweddarau ac yn cael ei chyhoeddi fel Argraffiad 8 PCC ym mis Ionawr 2016; bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Ddeddf Llesiant.
- 2) Bydd adolygiad llawn o PCC yn cael ei gynnal er mwyn alinio polisiâu cynllunio â'r nodau llesiant, a bwriedir cyhoeddi'r ddogfen adolygedig yn 2017. Bydd PCC yn cael ei archwilio'n drylwyr er mwyn rhoi sylw i'r nodau llesiant sy'n gynwysedig yn y Ddeddf a chroesgyfeirio atynt, a bydd hynny yn ei hanfod yn cysylltu'r ddau ac yn galluogi rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfiawnhau eu penderfyniadau yng nghydestun nodau'r Ddeddf Llesiant.

Bydd adolygiad interim o PCC yn cael ei gynnal rhwng cyhoeddi Argraffiad 8 a'r adolygiad llawn. Bydd Argraffiad 9 PCC yn cynnwys diweddariadau i Bennod 10 ar Fanwerthu a Chanol Trefi a bydd yn cael ei gyhoeddi diwedd haf / hydref 2016.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â sut fydd PCC yn cael ei adolygu er mwyn ei alinio â gofynion y Ddeddf Llesiant ar gael yn y [Prospectws Polisi Cynllunio \(Ionawr 2015\)](#) a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, ac a gynhyrchwyd i hysbysu'r craffu ar y Ddeddf Cynllunio (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pwrpas

Bydd adolygu PCC yn sicrhau bod polisi cynllunio cenedlaethol yn amlwg yn adlewyrchu egwyddorion ac uchelgeisiau'r Ddeddf Llesiant. Bydd y PCC adolygedig hefyd yn gosod sylfaen ar gyfer penderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Maes o law, y PCC a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fydd y dogfennau cynllunio sylfaenol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arwain a rheoli'r system gynllunio yng Nghymru. Bydd y dogfennau hyn hefyd yn cael eu hategu gan ddau lawlyfr - Llawlyfr Cynllun Datblygu a Llawlyfr Rheoli Datblygu - fydd yn rhoi arweiniad cenedlaethol ar brosesau a materion gweithdrefnol mewn perthynas â'r system gynllunio (gweler isadrannau 3.2.2 a 3.2.3).

Bydd y gwaith o adolygu'r PCC yn rhoi cyfle i liflinio polisi cynllunio a chael gwared ag unrhyw fanylion a dyblygu diangen. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy symud cynnwys presennol sy'n gysylltiedig â phrosesau a materion gweithdrefnol o'r PCC i'r ddau lawlyfr.

Amserlen Gweithredu

Camau Allweddol	Amserlen
Cyhoeddi Argraffiad 8 y PCC	Ionawr 2016.
Cyhoeddi Argraffiad 9 y PCC	Haf - Hydref 2016
Lansio PCC newydd	Diwedd 2017

Bydd y gwaith o baratoi diweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru cyfredol (argraffiadau 8 a 9) yn cael ei wneud law yn llaw â'r dasg ehangach o adolygu polisi cynllunio cenedlaethol.

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) - Bydd PCC yn ategu'r FfDC. I gael gwybodaeth am y FfDC ewch i adran 3.4.

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) - Bydd PCC yn rhoi cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer penderfynu ar geisiadau DAC. I gael mwy o wybodaeth am DAC ewch i adran 3.5

Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) - Bydd Polisi Cynllunio Cymru adolygedig yn rhoi cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer hysbysu gwaith paratoi a chynnwys CDSau a chynlluniau datblygu lleol (CDLlau). I gael mwy o wybodaeth am CDSau ewch i adran 4.1.

Yr Iaith Gymraeg - Bydd PCC yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu darpariaethau'r Iaith Gymraeg yn Neddff Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu lleol a cheisiadau cynllunio. I gael mwy o wybodaeth ar ddarpariaethau'r Iaith Gymraeg yn y Ddeddf Cynllunio, ewch i isadran 3.3.

3.2.2 Canllawiau Cenedlaethol - Llawlyfr Cynllun Datblygu

Cefndir

Ar hyn o bryd mae canllawiau ar gynlluniau datblygu lleol ar gael mewn Llawlyfr. Oherwydd i'r Ddeddf Cynllunio gyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), byddant hefyd yn rhan o'r system cynllun datblygu yng Nghymru.

Bydd y Llawlyfr presennol yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r gwaith paratoi, y cynnwys a'r berthynas rhwng dwy elfen y cynllun datblygu, gan fynegi'n eglur sut mae'r elfennau perthnasol yn gysylltiedig â'i gilydd a sut y gellir eu cymhwyso i wneud penderfyniadau.

Pwrpas

Bydd Llawlyfr adolygedig yn rhoi'r arweiniad priodol ar gyfer paratoi CDS a bydd yn nodi'r gwahaniaeth yn y berthynas rhwng CDSau a CDLlau, mewn perthynas â maint ac arwyddocâd. Mae'r broses baratoi a'r cwmpas yn debyg o ran eu natur, a'r prif wahaniaeth yw arwyddocâd y goblygiadau/cynigion a geir yn y ddau gynllun. Bydd y Llawlyfr adolygedig yn egluro beth yw'r berthynas rhwng y ddau gynllun, sut maent yn cydymffurfio â'i gilydd a'u rôl mewn perthynas â gwneud penderfyniadau. Bydd canllawiau yn cynorthwyo'r gwaith o baratoi cynlluniau heb fod yn rhy ragnodol.

Amserlen Gweithredu

Bydd y canllawiau yn cael eu cyhoeddi erbyn gaeaf 2017, cyn paratoi'r CDS.

3.2.3 Canllawiau Cenedlaethol - Llawlyfr Rheoli Datblygu

Cefndir

Ar hyn o bryd mae canllawiau mewn perthynas â gweithdrefnau rheoli datblygu wedi eu rhannu rhwng Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau), Cylchlythyrau, Llythyrau Egluro, Llythyrau Annwyl PSC, a memorandwm esboniadol ynglŷn â'r rheoliadau a'r gorchmynion amrywiol. Gall fod yn anodd dod o hyd iddynt, ac yn aml nid yw'n eglur a yw'r dogfennau yn berthnasol o hyd, neu a ydynt wedi cael eu disodli gan ganllawiau diweddarach.

Bydd Prosiect Llawlyfr Rheoli Datblygu (RhD) yn coladu a chyfuno'r ffynonellau gwybodaeth presennol yma sy'n gysylltiedig â phrosesau/gweithdrefnau ceisiadau cynllunio mewn un ddogfen o ganllawiau.

Bydd swm y canllawiau yn amrywio o un cam i'r llall yn y broses o reoli datblygu. Bydd angen canllawiau trylwyr ar gyfer rhai materion, ac oherwydd hynny bydd y llawlyfr yn cynnwys cyfres o atodiadau technegol. Bwriedir cynyddu nifer yr atodiadau yn raddol dros gyfnod o amser, er mwyn creu canllawiau cynhwysfawr.

Fel cam cyntaf, bydd y llawlyfr yn ymgorffori neu'n cyfeirio at gylchlythyrau neu lythyrau at brif swyddogion cynllunio sy'n bodoli eisoes ac sy'n berthnasol i reoli datblygu. Bydd y llawlyfr ar gael ar y we a bydd elfennau unigol o'r canllawiau yn destun rheoli fersiynau.

Pwrpas

Amcan y llawlyfr yw darparu eglurder, cysondeb a hygyrchedd i ddefnyddwyr y system gynllunio mewn perthynas â chanllawiau rheoli datblygu.

Amserlen Gweithredu

Bydd fersiwn gyntaf y llawlyfr yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2016. Bydd y cynnwys yn cael ei gynyddu'n gyfnodol wrth i ddogfennau canllawiau presennol gael eu hadolygu.

3.3 Yr Iaith Gymraeg a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Cefndir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio") yn cynnwys darpariaethau sy'n golygu bod y canlynol yn ofynnol:

- rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth baratoi pob cynllun datblygu; ac
- egluro i rai sy'n gwneud penderfyniadau y gallant ystyried yr iaith Gymraeg pan fo'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi sefydlu y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried effeithiau cynlluniau datblygu lleol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg, fel rhan o'r gwerthusiad cynaliadwyedd y mae'n rhaid ei gynnal er mwyn hysbysu'r cynllun. Mae Adran 11 y Ddeddf Cynllunio yn rhoi sylfaen statudol i'r broses hon, a bydd yn sicrhau y bydd yn cael ei chynnal mewn perthynas â phob cynllun datblygu lleol, mewn modd sy'n gyson.

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynlluniau Datblygu Strategol; yn Adrannau 3 a 6. Mae'r adrannau yma hefyd yn cynnwys dyletswydd i ystyried effaith y cynlluniau hyn ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae Adran 31 y Ddeddf Cynllunio yn egluro y gall awdurdodau cynllunio ystyried y defnydd o'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, cyn belled â bod hynny'n berthnasol i'r cais. Nid yw'r darpariaethau yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol i'r iaith Gymraeg o'i gymharu ag ystyriaethau perthnasol eraill.

Pwrpas

Bydd y darpariaethau yn atgyfnerthu'r ystyriaeth a roddir i'r iaith Gymraeg yn y system gynllunio ac yn datblygu proses gyson ar draws yr holl awdurdodau cynllunio a chynlluniau datblygu.

Yng nghyd-destun penderfynu ar geisiadau cynllunio, ni fydd Adran 31 y Ddeddf Cynllunio yn rhoi mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol, ond bydd yn rhoi sicrwydd i awdurdodau cynllunio lleol allu ystyried effaith cais cynllunio ar y defnydd o'r iaith Gymraeg pan fo hynny'n briodol.

Amserlen Gweithredu

Nodir yr amserlenni ar gyfer cychwyn y darpariaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg isod:

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
<p>a) Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Lleol (Adran 11 y Ddeddf Cynllunio)</p> <p>b) Yr Iaith Gymraeg - Ceisiadau cynllunio (Adran 31 y Ddeddf Cynllunio)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cychwyn Adran 11 a 31 - Ionawr 2016 - Diweddaru a chyhoeddi Pennod 4 Polisi Cynllunio Cymru - Ionawr 2016 - Cyhoeddi adrannau newydd Nodyn Cyngor Technegol 20 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus - Ionawr 2016 - Cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 Diwygiedig - Hydref 2016
<p>c) Yr Iaith Gymraeg - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Adran 3 y Ddeddf Cynllunio)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cychwyn Adran 3 - Ionawr 2016
<p>d) Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Strategol (Adran 6 y Ddeddf Cynllunio)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cychwyn Adran 6 - Gaeaf 2017

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu polisi a chanllawiau cynllunio wedi eu diweddaru er mwyn adlewyrchu'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd a roddwyd ar awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ynglŷn â'r Iaith Gymraeg yn gynwysedig ym Mhennod 4 Polisi Cynllunio Cymru, fydd yn cael ei ddiweddaru yn Ionawr 2016. Mae canllawiau manwl a chynghor ymarferol ar gael yn Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013) - bydd hwn hefyd yn cael ei ddiweddaru, a bydd adrannau newydd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn Ionawr 2016.

Ynghylch mesur yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Strategol, bydd ei gychwyn yn cyd-daro â chychwyn y darpariaethau a'r rheoliadau sydd eu hangen ar gyfer sefydlu Panel Cynllunio Strategol fydd yn gyfrifol am baratoi cynllun o'r fath. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd hynny yn digwydd tuag at ddiwedd 2017. I gael mwy o wybodaeth am Gynlluniau Datblygu Strategol ewch i adran 4.1.

3.4 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Cefndir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio") yn darparu gofyniad statudol i Weinidogion Cymru baratoi a diweddarau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer Cymru gyfan. Bydd y cynllun defnydd tir cenedlaethol hwn yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi polisiau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu a defnydd tir, pan fo'r system gynllunio yn gallu dylanwadu a chyflawni.

Nodir prif ddarpariaeth y [Ddeddf Cynllunio](#) yn Adran 3, a nodir darpariaethau atodol yn Adrannau 7, 8, 9, 10, 16 ac Atodlen 2. Mae eglurhad o bob adran i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio.

Pwrpas

Bydd prif rolau'r FfDC yn cynnwys:

- Cyflwyno blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â defnydd tir, drwy nodi lleoliadau allweddol ar gyfer gwireddu newid a buddsoddi mewn seilwaith yn ystod cyfnod o 20 mlynedd. Bydd y FfDC yn defnyddio ac yn integreiddio polisiau a strategaethau cenedlaethol mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir.
- Darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol (gweler adran 4.1) a Chynlluniau Datblygu Lleol.
- Cydlynu a gwneud y mwyaf o'r buddion posibl fydd yn deillio o fuddsoddi.
- Darparu cyd-destun y cynllun datblygu er mwyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynglŷn â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) (gweler adran 3.5).

Ceir mwy o wybodaeth am y FfDC yn:

- y [Prospectws Cynllun Datblygu \(Ionawr 2015\)](#) a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, a hysbysodd y craffu ar y ddeddfwriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- Adran 3 (paragraffau 3.19 i 3.28) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio.

Amserlen Gweithredu

Bydd gwaith paratoi'r FfDC yn dilyn proses baratoi sy'n debyg i'r broses ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol.

Camau Allweddol	Amserlen
Cychwyn Adrannau 3, 7 i 10, 16 ac Atodlen 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 fesul cam.	Ionawr 2016 hyd at Hydref 2019
Cyhoeddi ac ymgynghori ar amserlen gyflawni a datganiad ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer y FfDC	Haf 2016
Cyhoeddi ac ymgynghori ar y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffafrir, gyda chefnogaeth adroddiadau amgylcheddol a phapurau asesu	Hydref 2017
Ymgynghoriad statudol ar y FfDC drafft	Haf 2018
Cyhoeddi'r FfDC arfaethedig ar gyfer craffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	Gwanwyn 2019
Cymeradwyo'r FfDC	Hydref 2019

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) - Bydd y FfDC yn disodli rhan ffurflen y cynllun datblygu mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau DAC. Gall y FfDC hefyd nodi prosiectau DAC. I gael mwy o wybodaeth am DAC ewch i adran 3.5

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - bydd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ategu'r FfDC. I gael gwybodaeth am PCC ewch i adran 3.2

Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) - Bydd y FfDC yn darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol i'r CDSau. I gael mwy o wybodaeth am CDSau ewch i adran 4.1

3.5 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Cefndir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio") yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar geisiadau cynllunio sydd ag arwyddocâd ychwanegol i Gymru o dan broses newydd sy'n briodol ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath. Cyfeirir at y categori datblygu newydd hwn fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC).

Nodir prif ddarpariaethau'r [Ddeddf Cynllunio](#) is yn Adran 19 i 22, a nodir darpariaethau atodol yn Adrannau 17, 18, 24 i 27, 33, 49 i 51 ac Atodlenni 3 a 4. Mae eglurhad o bob adran ac atodlen i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf.

Pwrpas

Bydd y categori datblygu newydd hwn yn darparu mwy o sicrwydd ac effeithlonrwydd i'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio a benderfynir o dan y broses hon.

Y mathau o geisiadau fydd yn cael eu delio â hwy o dan y broses hon fydd y rhai hynny fydd â'r arwyddocâd mwyaf i Gymru o ran eu heffeithiau posibl. Gallant gynnwys prosiectau a glustnodir fel rhai DAC gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu rai sy'n bodloni meini prawf ac yn croesi trothwyon a nodir mewn rheoliadau. Bydd manylion y broses ar gyfer penderfynu ar geisiadau DAC yn cael eu rhagnodi hefyd mewn rheoliadau a gorchmynion fydd yn cefnogi darpariaethau'r Ddeddf Cynllunio.

Nodwyd manylion y meini prawf a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer prosiectau DAC a'r system ar gyfer gweinyddu a phenderfynu ar y ceisiadau hyn yn y papur ymgynghorol ['Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' \(20 Mai 2015\)](#).

Amserlen Gweithredu

Nodir y camau cyflawni allweddol a'r amserlenni disgwylidig ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon isod:

Camau Allweddol	Amserlen
Ymgynghoriad ar gyhoeddi is-ddeddfwriaeth	Cwblhawyd - Cyhoeddwyd ar 30 Mai 2015
Cychwyn, neu gychwyn yn rhannol, Adrannau 17 i 22, 24 i 27, 33, 49 i 51 ac Atodlen 3 a 4 Deddf Cynllunio (Cymru) yn dod i rym. (Bydd rhai adrannau yn cael eu cychwyn yn rhannol at ddibenion DAC)	Mawrth 2016
Is-ddeddfwriaeth yn dod i rym	Mawrth 2016
Cyhoeddi canllawiau ategol	Mawrth 2016

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) - Bydd y FfDC, CDS (pan fo'n berthnasol) a'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu cyd-destun y cynllun datblygu er mwyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ar geisiadau DAC. Gall y FfDC hefyd nodi prosiectau DAC. I gael mwy o wybodaeth am y FfDC a'r CDS, ewch i adrannau 3.4 a 4.1.

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - Bydd Polisi Cynllunio Cymru yn darparu'r cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer penderfynu ar geisiadau DAC. I gael mwy o wybodaeth ewch i adran 3.2.

3.6 Apeliadau Cynllunio

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen o welliannau i'r system apelio yn seiliedig ar y mesurau y manylir arnynt yn yr [ymgyngoriad ar "Gynllunio Cadarnhaol"](#).

Mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- cychwyn neu gymhwysu darpariaethau sy'n bodoli yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio 2008 a darpariaethau newydd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf Cynllunio 2015");
- newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd; a
- chyhoeddi canllawiau newydd.

Nodir prif ddarpariaethau [Deddf Cynllunio 2015](#) yn:

- Adran 47 - 'Dim newid y cais ar ôl rhoi hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad cynllunio etc. '
- Adran 49 - 'Costau wrth gyflwyno ceisiadau, apeliadau a chyfeiriadau'
- Adran 50 - 'Gweithdrefn ar gyfer trafodion penodol'

Adran 51 'Cost a gweithdrefn wrth apelio etc. diwygiadau ychwanegol' ac mae Atodlen 5 Deddf Cynllunio 2015 hefyd yn cynorthwyo gweithredu Adranau 49 a 50 y Ddeddf honno yn effeithiol.

Bydd gweithredu'r darpariaethau hyn yn golygu y bydd angen rheoliadau, fydd yn nodi manylion technegol y newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r system apelio. Mae eglurhad o bob adran ac atodlen i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i Ddeddf Cynllunio 2015.

Pwrpas

Gyda'i gilydd dyluniwyd y gwelliannau i:

- gynyddu cyflymder y broses apelio a hyrwyddo effeithiolrwydd a darparu mwy o sicrwydd;
- creu mwy o dryloywder drwy well cyfathrebu a chyfenwid gwybodaeth ymysg yr holl bartion er mwyn annog cyfranogiad a hyder y cyhoedd yn y broses apelio;
- sicrhau ymddygiad da ymysg yr holl bartion; a
- chreu mwy o degwch i bawb dan sylw.

I gael mwy o wybodaeth am y darpariaethau sy'n gynwysedig yn Neddf Cynllunio 2015, ewch i:

- Adran 3 (paragraffau 3.151 i 3.159 a 3.162 i 3.166) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategol i'r Ddeddf; ac

- Adrannau 11 a 12 [Bil Cynllunio \(Cymru\) Datganiad o Fwriad y Polisi \(Tachwedd 2014\)](#) a hysbysodd y craffu ar y Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amserlen Gweithredu

Bydd y rhaglen gwella hon yn cael ei rhoi ar waith mewn dau gam. Mae'r cam cyntaf wedi'i gwblhau a newidiadau wedi cael eu gwneud i'r system apelio drwy ddefnyddio pwerau deddfwriaethol sy'n bodoli. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar weithredu'r newidiadau i'r system sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio 2015.

Cam 1	
Gwelliannau	Amserlen
<p>a) Galluogi Gweinidogion Cymru neu berson a benodir i benderfynu ar y dull o gynnal apêl.</p>	<p>Cwblhawyd - Cyflwynwyd y newidiadau drwy'r is-ddeddfwriaeth ganlynol, a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2014.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 - Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014 - Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014
<p>b) Caniatáu cyfeirio ceisiadau yn ôl i'r awdurdod Cynllunio Lleol yn achos apelïadau yn erbyn methu penderfynu ar gais, o fewn cyfnod penodol</p>	<p>Cwblhawyd - Cyflawnwyd y newidiadau drwy'r is-ddeddfwriaeth ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Gorchymyn (Cychwyn Rhif 14 ac Arbed) 2015 a gychwynnodd Adran 50 y Ddeddf honno ar 23 Chwefror 2015. - Erthygl 9 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015, a ddaeth i rym ar 22 Mehefin 2015. -
<p>c) Diddymu'r terfyn amser sy'n cyfyngu ar hawl ymgeisydd i apelio ar sail methu penderfynu</p>	<p>Cwblhawyd - Cyflwynwyd y newidiadau drwy Erthygl 8 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015, a ddaeth i rym ar 22 Mehefin 2015.</p>

<p>d) Cyflwyno proses gyflymach o benderfynu ar apeliadau deiliaid tai ac apeliadau masnachol</p>	<p>Cwblhawyd - Cyflwynwyd y newidiadau drwy Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2015, a ddaeth i rym ar 22 Mehefin 2015.</p>
<p>e) Hwyluso'r weithdrefn apelio ar gyfer apeliadau arbennig</p>	<p>Cwblhawyd - Cyflwynwyd y newidiadau drwy'r is-ddeddfwriaeth ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pŵer i Drechu Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerywyr Statudol) (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 14 Hydref 2015. - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu ar Apeliadau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthau Rhagnodedig) (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 16 Rhagfyr 2015.

<p>Cam 2</p>	
<p>Gwelliannau</p>	<p>Camau Allweddol / Amserlenni</p>
<p>f) Atal amrywio neu addasu cais cynllunio ar ôl apêl, ac eithrio dan amgylchiadau a nodir mewn gorchymyn neu reoliadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cyhoeddi ymgynghoriad ar is-ddeddfwriaeth - Mehefin 2016
<p>g) Caniatáu i faterion newydd gael eu codi yn ystod apêl dan amgylchiadau arbennig yn unig</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cychwyn Adran 47 - Tachwedd 2016 (Mae Adrannau 49 i 51 yn darparu pwerau llunio rheoliadau ar gyfer cefnogi ceisiadau ac apeliadau - felly bydd eisoes mewn grym fel rhan o gyflwyno'r
<p>h) Cyfuno'r gyfundrefn gostau a chaniatáu i Weinidogion Cymru neu bersonau a benodwyd adennill treuliau, a chaniatáu adennill costau yn achos apeliadau sy'n cael eu cynnal drwy sylwadau ysgrifenedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> - ddeddfwriaeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol - gweler adran 3.5)
<p>i) Caniatáu i Weinidogion Cymru ysgrifennu rheolau gweithdrefn dulliau archwilio llafar</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Rheoliadau'n dod i rym - Ionawr 2017
<p>j) Cyflwyno gofyniad i gyflwyno datganiad apelio llawn gyda'r apêl, a nodi'r gofynion gwybodaeth ar gyfer y datganiad hwnnw</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cyhoeddi canllawiau - Ionawr 2017

Bydd y broses o gasglu tystiolaeth yn cychwyn yn y flwyddyn newydd er mwyn hysbysu cynnwys y papur ymgynghorol fydd yn cael ei gyhoeddi ym Mehefin 2016.

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - Bydd canllawiau i gynorthwyo newidiadau deddfwriaethol i'r system apelio yn cael eu hymgorffori yn y Llyfr Rheoli Datblygu - gweler adran 3.2.

4. Gwella Cydweithredu

4.1 Cynlluniau Datblygu Strategol

Cefndir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Ni fydd angen CDS dim ond mewn ardaloedd ble ceir materion cynllunio sydd ag arwyddocâd sy'n fwy nag arwyddocâd lleol. Bydd hefyd yn rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal honno, ynghyd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd y CDS yn cael ei baratoi a'i adolygu gan Banel Cynllunio Strategol fydd yn cynnwys aelodau etholedig o awdurdodau cynllunio lleol yn ardal y CDS, ac aelodau sydd wedi cael eu henwebu o grwpiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn rhoi pŵer llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad y Panel, yn cynnwys cydbwysedd o ran y rhywiau.

Nodir prif ddarpariaethau'r [Ddeddf Cynllunio](#) yn Adran 4, 5, a 6, a nodir darpariaethau atodol yn Adrannau 7, 8, 9, 10, 16 ac yn Atodlen 2. Mae eglurhad o bob Adran ac Atodlen i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf.

Nid yw'r Ddeddf Cynllunio yn nodi ym mhle y dylai CDSau gael eu paratoi, fodd bynnag, yn ystod y craffu ar y Ddeddf Cynllunio, ac fel yr amlygwyd yn y Memorandwm Esboniadol sy'n ategol iddo, nodwyd tair ardal dros dro allai elwa o gynllunio strategol - Caerdydd, Abertawe a choridor yr A55. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ddigon hyblyg i gynnwys unrhyw newid yn nifer yr awdurdodau lleol.

Bydd raid i'r ACLlau weithio gyda'i gilydd er mwyn penderfynu ar ffin ddrafft ardal y CDS, cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ei hystyried a chytuno arni. Ar ôl cytuno ar hynny, gellir cychwyn ar waith paratoi'r CDS.

Pwrpas

Bydd CDS yn ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau gan adlewyrchu sut mae pobl yn byw eu bywydau heddiw ac yn y dyfodol. Maent yn darparu dull cyson a chost effeithiol, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud unwaith ar y lefel strategol. Mae hyn yn caniatáu i faterion sy'n fwy na materion lleol, megis cyflenwad tai, dyraniadau tai strategol, safleoedd cyflogaeth strategol a chefnogi seilwaith trafndiaeth, sy'n ymestyn ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol, gael eu hystyried a'u cynllunio mewn ffordd gynhwysfawr sydd wedi ei hintegreiddio.

Mae'r dull hwn yn ategu mentrau strategol eraill yn cynnwys y metro arfaethedig, dinas-ranbarthau a dêl dinas, drwy ddarparu fframwaith polisi a llywodraethu eglur ar gyfer cynllunio a chydlynio strategol.

Ceir mwy o wybodaeth am y CDSau yn:

- y [Prosbectws Cynllun Datblygu \(Ionawr 2015\)](#) a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, a hysbysodd y craffu ar y Ddeddf Cynllunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- Adran 3 (paragraffau 3.29 i 3.39) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategu'r Ddeddf Cynllunio.

Amserlen Gweithredu

Mae cyflawni'r CDSau yn brosiect tymor canolig fydd yn cael ei gynnal fesul cam allweddol, ynghyd â chychwyn Adrannau perthnasol y Ddeddf Cynllunio a chyflwyno is-ddeddfwriaeth ategol.

Mae'n debygol y bydd sefydlu ardal CDS a Phanel drwy gyfrwng rheoliadau yn cymryd tua 2 flynedd. Ar ôl llunio'r rheoliadau, gellir cychwyn sefydlu'r Panel a pharatoi'r CDS. Yn unol â phroses y Cynllun Datblygu Lleol, disgwylir y bydd proses y CDS wedi ei gwblhau ymhen 4 blynedd, a bydd y CDS cynharaf yn cael ei fabwysiadu yn 2021.

Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn, ac mae'r elfennau canlynol naill ai wedi eu cwblhau neu ar y gweill:

- [Papur Ymgynghorol - Cynigion mewn perthynas â Rheoliadau Panel Cynllunio Strategol: Cyfansoddiad a Materion Ariannol \(10 Awst 2015\)](#)

Yn ystod y craffu ar y Ddeddf Cynllunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bu i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol bwysleisio pwysigrwydd ymdrin â materion cydraddoldeb mewn cyrff cyhoeddus, yn cynnwys Panelau Cynllunio Strategol. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol ym mis Awst 2015 oedd yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn â chynigion mewn perthynas â chyfansoddiad panelau cynllunio strategol o ran rhyw. Roedd y papur hefyd yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn â materion ariannol mewn perthynas â'r Panel. Ceir mwy o wybodaeth yn y papur ymgynghorol.

- [Gorchymyn Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015 \(Cychwyn Rhif 1\) 2015](#)

Bu i'r Gorchymyn Cychwyn hwn ddod ag Adran 4 'Dynodi Ardaloedd Cynllunio Strategol a Sefydlu Panelau Cynllunio Strategol' a Rhan 1 Atodlen 1 'Cyfansoddiad a Threfniadau Ariannol Panelau' y Ddeddf Cynllunio i rym ar 5 Hydref 2015.

Mae'r gorchymyn cychwyn yn ffurfiol yn galluogi ACLI i ganfod a gweithio ag awdurdod arweiniol (a ddiffinnir mewn deddfwriaeth fel yr 'awdurdod cyfrifol') er mwyn datblygu cynigion ar gyfer dynodi ardaloedd cynllunio strategol i Lywodraeth Cymru eu hystyried a'u cymeradwyo. Hefyd, mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i lunio rheoliadau ar gyfer dynodi ardaloedd o'r fath a sefydlu Panelau Cynllunio Strategol pan fo cynigion a gyflwynwyd gan yr

'awdurdod cyfrifol' wedi cael eu cymeradwyo ganddi. Ceir mwy o wybodaeth am y Gorchymyn Cychwyn yn y Nodiadau Esboniadol ategol.

Bydd gweddill Adrannau a Rhannau Atodlenni perthnasol y Ddeddf Cynllunio yn cychwyn mewn ymagwedd fesul cam.

Nodir y camau cyflawni allweddol a'r amserlenni disgwylidig ar gyfer cyflwyno'r CDSau isod:

Camau Allweddol	Amserlen
Cychwyn Adrannau 4 i 10, 16 ac Atodlen 1 a 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 fesul cam.	Adrannau 4 i 6, 16 ac Atodlen 1 a 2 - Hydref 2015 hyd at ddiwedd 2017 Adrannau 7 i 10 – 2021 / 2022 (ar mabwysiadu CDS)
Llywodraeth Cymru yn cefnogi ACLlau sy'n dymuno cyflwyno cynigion ar gyfer ardaloedd cynllunio strategol.	Ar y gweill
Rheoliadau Panel Cynllunio Strategol: Cyfansoddiad a Materion Ariannol	Mawrth 2016
'Awdurdod / awdurdodau cyfrifol' i gyflwyno cynigion ar gyfer ardaloedd cynllunio strategol i Lywodraeth Cymru	Hydref / Gaeaf 2016
Llywodraeth Cymru i ystyried y cynigion	Gwanwyn 2017
Cyhoeddi ymgynghoriad ar y rheoliadau sefydlu Bydd y rheoliadau hyn yn sefydlu: - Yr ardal cynllunio strategol a'r Panel ar gyfer yr ardal a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru - Ffurf a chynnwys y Cynlluniau Datblygu Strategol	Gwanwyn 2017
Rheoliadau'n cael eu cyflwyno ac yn dod i rym	Gaeaf 2017
Sefydlu Panel Cynllunio Strategol ar gyfer yr ardal	Gaeaf 2017 hyd at Wanwyn 2018
Paratoi, camau ymgynghori, archwilio a mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol	Yn ddisgwylidig erbyn 2021 / 2022

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) - Bydd gan y CDS statws cynllunio datblygu, ac ynghyd â'r FfDC a'r Cynllun Datblygu Lleol byddant yn ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer ardal benodol. I gael mwy o wybodaeth am y FfDC ewch i adran 3.4.

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - Bydd Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig yn darparu cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer hysbysu gwaith paratoi a chynnwys y CDSau, a bydd canllawiau ynghylch eu paratoi a'r berthynas â chynlluniau datblygu eraill yn cael eu darparu mewn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu adolygedig. I gael mwy o wybodaeth ewch i adran 3.2

4.2 Cydbwyllgorau Cynllunio

Cefndir

Mae Adran 2 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu Cydbwyllgorau Cynllunio (CCau) fydd yn gyfrifol am ddau neu ragor o ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio") yn cynnwys darpariaethau i foderneiddio a gwella'r pwerau presennol yma drwy:

- Alluogi CCau i baratoi cynllun datblygu lleol a gweithredu fel awdurdod codi tâl at ddibenion yr ardoll seilwaith cymunedol.
- Caniatáu i Weinidogion Cymru ymestyn pwerau CCau er mwyn cyflawni swyddogaethau rheoli datblygu mewn Parc Cenedlaethol, pan fo Parc Cenedlaethol yn ei ardal. Byddai'r rheoliadau i ymestyn y pwerau hyn yn destun ystyriaeth a chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ni fyddant yn ymestyn i gynnwys swyddogaethau gwneud cynlluniau, gan y byddai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i ymgymryd â hynny.

Mae'r prif ddarpariaeth a geir yn y [Ddeddf Cynllunio](#) yn cael ei nodi yn Adran 15 a 40 i 42. Mae eglurhad o bob Adran i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio.

Pwrpas

Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf Cynllunio yn moderneiddio a gwella pwerau CCau er mwyn sicrhau y gallant weithredu'n effeithiol ac effeithlon o fewn y fframwaith gynllunio a deddfwriaethol presennol.

Maent hefyd yn cynnig hyblygrwydd i alluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y math o gyrff all gyflawni rôl awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â swyddogaethau cynllunio statudol, yn cynnwys cynlluniau datblygu a rheoli datblygu, er mwyn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon, effeithiol a chydnerth ar hyd a lled Cymru.

Mae'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â CCau ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau) yn galluogi CCau i gyflawni swyddogaethau rheoli datblygu APCau ble ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y byddai hynny'n fuddiol. Mae'r darpariaethau'n sicrhau bod APCau yn cadw'r swyddogaethau gwneud cynlluniau datblygu, gan sicrhau bod y cysylltiadau rhwng Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r cynllun datblygu lleol yn cael eu cynnal, a bod cysondeb o ran polisi cynllunio ar hyd a lled ardal Parc Cenedlaethol. Ceir mwy o wybodaeth am y darpariaethau hyn yn Adran 3 (paragraffau 3.124 i 3.127) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio.

Amserlen Gweithredu

Nodir yr amserlenni ar gyfer cychwyn y darpariaethau mewn perthynas â'r Cydbwyllgorau Cynllunio isod:

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
Cydbwyllgorau Cynllunio: Swyddogaethau mewn perthynas ag arolygon a Chynlluniau Datblygu Lleol (Adran 15 y Ddeddf Cynllunio)	- Cychwyn Adran 15 (1) a (2) - Mawrth 2016 - Cychwyn Adran 15 (3) - Ebrill 2016
Cydbwyllgorau Cynllunio: Awdurdod Sylweddau Peryglus (Adran 40 y Ddeddf Cynllunio)	- Cychwyn Adran 40 - Mawrth 2016
Cydbwyllgorau Cynllunio: Awdurdod Parciau Cenedlaethol (Adrannau 41 a 42 y Ddeddf Cynllunio)	- Cychwyn Adrannau 41 a 42 - Mawrth 2016

Mae cychwyn Adran 15 (3) y Ddeddf Cynllunio yn ddibynnol ar gychwyn Adrannau perthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y disgwylir y byddant yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Fframwaith Perfformiad Cynllunio - Mae moderneiddio a gwella pwerau presennol CCau yn darparu mecanwaith arall i Lywodraeth Cymru allu ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau cynllunio effeithlon, effeithiol a chydnerth ar hyd a lled Cymru. I gael mwy o wybodaeth am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio ewch i adran 5.1.

5. Gwella Cyflawni'n Lleol

5.1 Fframwaith Perfformiad Cynllunio

Cefndir

Bu i [bapur ymgynghorol "Cynllunio Cadarnhaol"](#) gynnig fframwaith ar gyfer mesur ac adrodd yn ôl ar ddarparu gwasanaethau cynllunio. Roedd hyn yn cynnwys:

- tabl Fframwaith Perfformiad, cyhoeddi perfformiad yn erbyn dangosyddion a thargedau y cytunwyd arnynt gyda rhanddeiliaid ac a hysbyswyd gan ddata a gasglwyd yn chwarterol;
- Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol, wedi ei baratoi gan awdurdodau cynllunio lleol, yn crynhoi eu perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, a nodi meysydd o arferion gorau a chamau i'w cymryd er mwyn annog gwelliannau pan fo angen hynny; ac
- Adroddiad ar Berfformiad trosfwaol, wedi ei baratoi gan Lywodraeth Cymru, fydd yn gymorth o ran darparu darlun strategol o faterion a ffactorau cyffredin mewn perthynas â darparu gwasanaethau lleol a nodi meysydd ar gyfer gwaith yn y dyfodol o ran cyflawni a rhannu arferion da yn genedlaethol.

Pwrpas

Pwrpas y Fframwaith Perfformiad Cynllunio yw:

- Darparu darlun clir a chywir o lefelau cyflenwi gwasanaethau gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill, wedi'i fesur yn erbyn dangosyddion a thargedau cytunedig.
- Nodi ble mae'r lefelau gwasanaeth yn gostwng o dan y lefelau derbyniol, fel y gellir cymryd camau cefnogi ac ymyrraeth.
- Nodi meysydd ble ceir arferion da, annog syniadau da ymysg awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio dull myfyriol, hunanwella o ddarparu gwasanaethau, fel rhan o broses yr Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol.
- Creu darlun o'r materion gweithredol sy'n wynebu awdurdodau cynllunio lleol drwy Gymru gyfan, a mesur effaith weithredol newidiadau deddfwriaethol a newid polisi, a darparu cymorth pan fo'n briodol er mwyn galluogi newid cadarnhaol.

Mae mwy o wybodaeth am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio ar gael yn:

- Adrannau 6.10 i 6.19 [bapur ymgynghorol Cynllunio Cadarnhaol](#), sy'n nodi cwmpas darparu gwasanaeth cynllunio drwy weithredu dull rheoli perfformiad, hunanwella a "stewardiaeth weithgar".

- Ein [gwefan Fframwaith Perfformiad Cynllunio](#) sy'n nodi'r dangosyddion, y targedau presennol a'r adroddiadau cyhoeddedig diweddaraf ar berfformiad.
- [Ein gwefan Adroddiadau ar Berfformiad Blynyddol](#) sy'n cynnwys canllawiau ar fformat a chynhyrchu Adroddiadau ar Berfformiad Blynyddol, ac yma bydd yr Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol Cymru pan fo'n cael ei gynhyrchu.

Amserlen Gweithredu

Camau Allweddol	Amserlen
Cwblhau dangosyddion perfformiad a thargedau ar gyfer adrodd yn ôl	Tachwedd 2014 (cwblhawyd)
Cyhoeddi'r tabl Fframwaith Perfformiad yn chwarterol, gan siartio perfformiad ACLI yn erbyn y dangosyddion a'r targedau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2014.	Ebrill 2015 (cwblhawyd)
Cyhoeddi Tabl Fframwaith Perfformiad cyntaf y flwyddyn ariannol, fydd yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynhyrchu Adroddiadau ar Berfformiad Blynyddol	Mai 2015 (cwblhawyd)
ACLIau i gyflwyno Adroddiadau ar Berfformiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru	Gaeaf 2015 (ac yna ailadrodd hyn yn flynyddol)
Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Cymru gyfan.	Gwanwyn 2016 (ac yna ailadrodd hyn yn flynyddol)
Adolygu dangosyddion a thargedau gyda Llywodraeth Leol ac adolygu fel bo'n briodol.	Haf 2016 (ac yna ailadrodd hyn yn flynyddol)

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Ceisiadau Cynllunio Uniongyrchol i Weinidogion Cymru - Mae'r meini prawf sydd i'w cymhwyso wrth asesu a phenderfynu a yw awdurdod cynllunio lleol yn tanberfformio neu beidio, ac y dylai Gweinidogion Cymru eu dynodi at y diben hwnnw, yn debygol o gael eu tynnu o'r dangosyddion sy'n gynwysedig yn y Tabl Fframwaith Perfformiad. I gael mwy o wybodaeth am gyflwyno ceisiadau cynllunio uniongyrchol i Weinidogion Cymru, gweler adran 5.2.

5.2 Ceisiadau Cynllunio Uniongyrchol i Weinidogion Cymru

Cefndir

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio") yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gymryd camau pan fo achos o fethiannau amlwg a pharhaus mewn perthynas â pherfformiad Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI). Mae'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi bod ACLI yn perfformio'n wael ac i ddiwyddu dynodiad o'r fath ar unrhyw adeg yn seiliedig ar feini prawf diffiniedig. Pan fo ACLI wedi cael ei ddynodi, bydd gan ymgeiswyr yr opsiwn o gyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt yn hytrach na'r ACLI.

Mae'r meini prawf fydd yn cael eu cymhwyso wrth ddynodi bod ACLI yn "perfformio'n wael" yn debygol o gael eu tynnu o'r Tabl Perfformiad Cynllunio (gweler adran 5.1) a byddant yn destun ymgynghoriad.

Nodir prif ddarpariaethau'r [Ddeddf Cynllunio](#) yn Adran 23, a nodir darpariaethau atodol yn Adrannau 17, 18, 24 i 27, 33, 49 i 51 ac Atodlenni 3 a 4 er mwyn cynorthwyo gweithredu'r brif ddarpariaeth yn effeithiol. Mae eglurhad o bob adran ac atodlen i'w gael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf.

Pwrpas

Bydd cyflwyno'r darpariaethau hyn a'r is-ddeddfwriaeth ategol yn sicrhau y bydd ACLI yn canolbwyntio ar wella eu perfformiad, gan annog gweithio'n effeithlon mewn perthynas â'u rheoli datblygu a swyddogaethau cynllunio eraill. Bydd hefyd yn darparu gwasanaeth arall i ddatblygwyr er mwyn gallu prosesu eu ceisiadau a phenderfynu arnynt yn brydlon.

Ceir mwy o wybodaeth am gyflwyno'r darpariaethau hyn a'r is-ddeddfwriaeth ategol yn:

- Adran 3 (paragraffau 3.81 i 3.87) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio; ac
- Adran 6 [Bil Cynllunio \(Cymru\) Datganiad o Fwriad y Polisi \(Tachwedd 2014\)](#) a hysbysodd y craffu ar y Ddeddf Cynllunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amserlen Gweithredu

Bydd agweddau penodol o ddarpariaethau'r Ddeddf Cynllunio yn cael eu darparu mewn is-ddeddfwriaeth (drwy gyfrwng rheoliadau a gorchmynion datblygu), fydd yn rhagnodi'r broses a'r gofynion mewn perthynas â gwneud ceisiadau o'r fath a phenderfynu arnynt.

Nodir y camau cyflawni allweddol a'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon isod:

Camau Allweddol	Amserlen
Cyhoeddi ymgynghoriad ar is-ddeddfwriaeth, gan nodi'r broses a'r gofynion mewn perthynas â gwneud ceisiadau o'r fath a phenderfynu arnynt.	Haf 2016
Cyhoeddi ymgynghoriad ar y meini prawf fydd i'w cymhwyso wrth ddynodi ACLI neu wrth ddiddymu'r dynodiad	Haf 2016
Cychwyn Adrannau 23 i 27 ac Atodlenni 3 a 4 i ddod i rym at yr holl ddibenion eraill (Bydd Adrannau 17, 18, 33 a 49 i 51 eisoes mewn grym fel rhan o gyflwyno'r ddeddfwriaeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol - gweler adran 3.5) Is-ddeddfwriaeth yn dod i rym Cyhoeddi canllawiau ategol	Gwanwyn 2017
Llywodraeth Cymru i fonitro perfformiad ACLI yn erbyn y meini prawf dynodi	O wanwyn 2017

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Fframwaith Perfformiad Cynllunio - Mae'r meini prawf sydd i'w cymhwyso wrth asesu a phenderfynu a yw awdurdod cynllunio lleol yn tanberfformio neu beidio, ac y dylai Gweinidogion Cymru eu dynodi at y diben hwnnw, yn debygol o gael eu tynnu o'r dangosyddion sy'n gynwysedig yn y Tabl Fframwaith Perfformiad (gweler adran 5.1).

5.3 Gwella Proses Cynllun Datblygu Lleol

Cefndir

Bu i [bapur ymgynghorol Cynllunio Cadarnhaol](#) gynnig rhaglen o welliannau i'r system Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r rhaglen gwella yn cynnwys:

- Cwblhau Ymarferiad Caboli'r CDLI.
- Cyflwyno pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ddau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol baratoi CDLI ar y cyd.
- Cyflwyno pwerau fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw cyn y gellir tynnu CDLI yn ôl.
- Cyflwyno dyddiad terfyn ar gyfer CDLIau - ar ôl y dyddiad hwn, mae'r CDLI yn peidio â bod yn gynllun datblygu.

Hefyd, mae Cynlluniau Lleoedd yn cael eu cynhyrchu fel Canllawiau Cynllunio Ategol er mwyn annog mwy o ymgysylltu cymunedol ym maes cynllunio, sy'n caniatáu i gymunedau siapio eu cymunedau lleol. Gall y cynlluniau hyn nodi'r canllawiau thematig manwl neu'r canllawiau sy'n safle benodol er mwyn ategu'r polisiau a'r cynigion a gyflwynir mewn CDLI a fabwysiedir. Mae cyfres o brosiectau peilot yn cael eu datblygu fydd yn rhoi cymorth i Gynghorau Tref/Cymuned ddatblygu 'Cynlluniau Lleoedd'.

Mae gweithredu ymarferiad caboli'r CDLI a'r gallu i greu Cynlluniau Lleoedd yn dibynnu ar bwerau sy'n bodoli yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Bydd y gwelliannau eraill yn cael eu cyflawni drwy ddefnyddio darpariaethau canlynol y [Ddeddf Cynllunio](#):

- Adran 12 - 'Cyfnod y mae'r cynllun datblygu lleol yn weithredol'
- Adran 13 - 'Tynnu cynllun datblygu lleol yn ôl'
- Adran 14 - 'Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i baratoi cynlluniau datblygu lleol ar y cyd'

Mae mwy o wybodaeth am yr adrannau hyn i'w chael yn y [Nodiadau Esboniadol](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio.

Pwrpas

Gyda'i gilydd dyluniwyd y gwelliannau i:

- wella proses y CDLI er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu'n cael eu paratoi mor gyflym â phosibl ar gyfer ardaloedd priodol; a
- helpu i sicrhau, pan fo CDLIau wedi cael eu cynhyrchu, eu bod yn cael eu diweddarau a'u bod yn berthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio ac apeliadau.

Ceir mwy o wybodaeth am ymarferiad caboli'r CDLI yn [Ymarferiad Caboli Proses Cynlluniau Datblygu Lleol: Adroddiad \(Medi 2013\)](#).

Ceir mwy o wybodaeth am gyflwyno'r darpariaethau sy'n gynwysedig yn y Ddeddf Cynllunio, is-ddeddfwriaeth ategol a Chynlluniau Lleoedd, yn:

- Adran 3 (paragraffau 3.40 i 3.53) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategu'r Ddeddf Cynllunio;
- Adran 3 a 4 [Bil Cynllunio \(Cymru\) Datganiad o Fwriad y Polisi \(Tachwedd 2014\)](#) a hysbysodd y craffu ar y Ddeddf Cynllunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a'r
- [Prosbectws Cynllun Datblygu \(Ionawr 2015\)](#) a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, ac a hysbysodd y craffu ar y Ddeddf Cynllunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amserlen Gweithredu

Cychwynwyd eisoes ar weithredu'r rhaglen gwella hon drwy lunio [Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynllun Datblygu Lleol\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2015](#). Bu i hyn gyflwyno nifer o newidiadau i broses y CDLI a daeth i rym ar 28 Awst 2015.

Bydd cam nesaf rhaglen gwella'r CDLI yn canolbwyntio ar weithredu'r newidiadau a geir yn y Ddeddf Cynllunio. Bydd agweddau penodol o ddarpariaethau'r Ddeddf yn cael eu darparu mewn is-ddeddfwriaeth (drwy gyfrwng rheoliadau).

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
Ymarferiad Caboli CDLI	Cwblhawyd - Cyflwynwyd newidiadau i broses y CDLI drwy Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 a ddaeth i rym ar 28 Awst 2015.
Deddf Cynllunio (Cymru): <ul style="list-style-type: none"> - Adran 12 - Dyddiad terfyn ar gyfer CDLIau - Adran 13 - Gofyniad i ddarparu hysbysiad ymlaen llaw o'r bwriad i dynnu CDLI yn ôl - Adran 14 - Y gallu i roi cyfarwyddyd i ACLIau baratoi CDLI ar y cyd 	<ul style="list-style-type: none"> - Cychwyn Adrannau 12 i 14 - Mawrth 2016 - Rheoliadau i ddod i rym er mwyn ategu adrannau 12 i 14 - Haf 2016
Cynlluniau Lleoedd	Ar y gweill - Mae cyfres o brosiectau peilot yn cael eu datblygu er mwyn cynorthwyo Cynghorau Tref/Cymuned i ddatblygu 'Cynlluniau Lleoedd' ar gyfer eu hardal pan fo CDLI wedi cael ei fabwysiadu gan yr awdurdod cynllunio lleol

5.4 Gwella'r System Rheoli Datblygu

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen o welliannau i'r system rheoli datblygu yn seiliedig ar y pecyn o fesurau y manylir arnynt ym [mhapur ymgynghorol "Cynllunio Cadarnhaol"](#). Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar broses ceisiadau cynllunio a'r system orfodi. Hefyd, rydym yn cynnal adolygiad manwl o Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

5.4.1 Proses Ceisiadau Cynllunio

Cefndir

Mae'r gwelliannau i'r broses ceisiadau cynllunio yn dibynnu ar gyfuniad o ddarpariaethau sy'n bodoli yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, darpariaethau newydd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio"), newidiadau i is-ddeddfwriaeth a pholisi a chanllawiau newydd. Maent yn berthnasol i:

- Ofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio (Adran 17 y Ddeddf Cynllunio)
- Gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyn-ymgeisio (Adran 18 y Ddeddf Cynllunio)
- Ceisiadau annilys: hysbysiadau ac apeliadau (Adrannau 28 i 30 y Ddeddf Cynllunio)
- Hysbysiadau o benderfyniadau a hysbysiad datblygu (Adrannau 33 a 34 y Ddeddf Cynllunio)
- Cyfnod caniatâd cynllunio (Adrannau 35 a 36 y Ddeddf Cynllunio)
- Cau neu wro llwybrau cyhoeddus pan gyflwynir cais am ganiatâd cynllunio (Adran 38 y Ddeddf Cynllunio)
- Pwyllgorau cynllunio a dirprwyo (Adran 39 y Ddeddf Cynllunio)
- Ymgynghoreion statudol (cychwyn Adran 54 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Adrannau 17 a 37 y Ddeddf Cynllunio; ac, adolygiad o'r ymgynghoreion statudol a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2015
- Ffioedd ceisiadau cynllunio
- Addasiadau ar ôl cyflwyno
- Datganiadau Dyluniad a Mynediad
- Adnewyddu cais cynllunio
- Ffioedd ceisiadau cynllunio
- Meysydd Tref neu Bentref (Adrannau 52 i 54 a Atodlen 6 y Ddeddf Cynllunio)

Ceir mwy o wybodaeth am adrannau perthnasol y Ddeddf Cynllunio yn y [Nodiadau Esboniadol](#) ategol.

Pwrpas

Gyda'i gilydd dyluniwyd y gwelliannau i:

- Annog ymgysylltu ystyrllon ac effeithiol yn gynnar er mwyn sicrhau y gall cymunedau ac ymgylgoreion statudol ddylanwadu ar gynigion datblygu.
- Creu mwy o eglurder, tryloywder a sicrwydd yn y broses rheoli datblygu.
- Cyflwyno mwy o gysondeb ac effeithiolrwydd yn y gweithdrefnau penderfynu ar geisiadau cynllunio, tra'n cadw atebolrwydd democrataidd lleol.
- Helpu i wneud penderfyniadau'n brydlon.
- Egluro'r broses ar gyfer delio â cheisiadau cynllunio a cheisiadau ynghylch Meysydd Tref neu Bentref, er mwyn osgoi prosesau cyfochrog sy'n ddryslyd i'r holl bartïon, yn cynnwys trigolion lleol.

Ceir gwybodaeth fanwl am y gwelliannau arfaethedig yn y papurau ymgynghorol canlynol ac adrannau o'r Memorandwm Esboniadol:

- ['Deddfwriaeth eilaidd ar gyfer rheoli datblygu' \(18 Mehefin 2015\)](#);
- ['Diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth eilaidd ar gyfer rheoli datblygu yn ymwneud â: ymgylgoreion statudol, datganiadau dyluniad a mynediad, tai amlfeddiannaeth' \(3 Awst 2015\)](#)
- ['Pwyllgorau Cynllunio, Dirprwyo a Chydbwyllgorau Cynllunio' \(6 Hydref 2014\)](#); ac,
- Adran 3 (Paragraffau 3.57 i 3.73, 3.88 i 3.123, 3.128 i 3.136, 3.160 a 3.161) y [Memorandwm Esboniadol \(2015\)](#) sy'n ategol i'r Ddeddf Cynllunio.

Amserlen Gweithredu

Mae gweithredu'r rhaglen gwella hon yn dibynnu ar gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar ffurf:

- gorchmynion cychwyn er mwyn dod â'r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i rym;
- rheoliadau a gorchmynion newydd; a,
- rheoliadau a gorchmynion yn diwygio is-ddeddfwriaeth bresennol, yn benodol Gorchmyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, sy'n nodi gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar geisiadau sy'n gysylltiedig â chynllunio.

Bydd y pecyn hwn o is-ddeddfwriaeth a chychwyn darpariaethau'r Ddeddf Cynllunio yn cael eu cyflwyno fesul cam, fel y nodir isod:

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
a) Ffioedd Ceisiadau Cynllunio	<p>Cwblhawyd - Cyflwynwyd newidiadau i Ffioedd Cynllunio yng Nghymru gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2015.</p>
b) Proses Ceisiadau Cynllunio: <ol style="list-style-type: none"> 1. Gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio 2. Gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyn-ymgeisio 3. Ceisiadau annilys: hysbysiadau ac apeliadau 4. Hysbysiadau o benderfyniadau a hysbysiad datblygu 5. Cyfnod caniatâd cynllunio 6. Ymgynghoreion statudol 7. Addasiadau ar ôl cyflwyno 8. Datganiadau Dyluniad a Mynediad 9. Adnewyddu cais cynllunio 	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - Cwblhawyd: Cyhoeddwyd ar 19 Mehefin a 3 Awst 2015 - Cychwyn Adrannau 17, 18, 28 i 30 a 33 i 38 - Mawrth 2016 - Rheoliadau a gorchmynion yn dod i rym - Mawrth 2016 - Cyhoeddi canllawiau - Mawrth 2016
c) Strwythur pwyllgor cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - Cwblhawyd: Cyhoeddi papur ymgynghorol ar 6 Hydref 2014 - Cychwyn Adran 39 - Gwanwyn 2017 - Rheoliadau'n dod i rym - Gwanwyn 2017 - Cyhoeddi canllawiau - Gwanwyn 2017
d) Cynllun Dirprwyo Cenedlaethol i Swyddogion	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - Cwblhawyd: Cyhoeddi papur ymgynghorol ar 6 Hydref 2014 - Ymgysylltu â ffocws gyda rhanddeiliaid - Hydref 2017 - Papur ymgynghorol ychwanegol - Gaeaf 2017

	<ul style="list-style-type: none"> - Rheoliadau'n dod i rym - Gwanwyn 2018 - Cyhoeddi canllawiau - Gwanwyn 2018
e) Meysydd Tref neu Bentref	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - Tachwedd 2016 - Cychwyn Adrannau 52 i 54 ac Atodlen 6 - Ebrill 2017 - Rheoliadau a gorchmynion yn dod i rym - Mai 2017 - Cyhoeddi canllawiau - Mai 2017

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - Bydd canllawiau i gynorthwyo newidiadau deddfwriaethol i'r system rheoli datblygu yn cael eu nodi yn y Llyfr Rheoli Datblygu (gweler adran 3.2.)

5.4.2 Gorfodi

Cefndir

Nodir rhaglen gwella'r system orfodi yn Adran 3 (paragraffau 3.137 i 3.150) y [Memorandwm Esboniadol](#) sy'n ategol i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Cynllunio").

Mae'r prif ddarpariaeth a geir yn [Neddf Cynllunio 2015](#) yn cael ei nodi yn Adrannau 32, 43 i 46 a 48. Ceir eglurhad o'r holl adrannau yma yn [Nodiadau Esboniadol](#) Deddf Cynllunio 2015.

Pwrpas

Bydd y gwelliannau yn cyfyngu ar y cyfle i arafu camau gorfodi effeithiol, fydd yn helpu i wella hyder y cyhoedd yn y system gynllunio drwy ddarparu datrysiadau effeithiol a phrydlon pan fo rheolau cynllunio'n cael eu torri.

Amserlen Gweithredu

Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn dibynnu ar ddod â darpariaethau perthnasol Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 20004 (DCPhG 2004) a Deddf Cynllunio 2015 i rym drwy gyfrwng gorchmynion cychwyn. Y newidiadau i drosglwyddo cyfrifoldeb am benderfynu ar geisiadau yn erbyn hysbysiadau tir salw oddi ar yr Ynadon ac ar Lywodraeth Cymru (Adran 48 Deddf Cynllunio 2015) yw'r unig ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gorfodaeth sydd angen rheoliadau ategol. Nodir yr amserlen ar gyfer eu gweithredu isod:

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
<p>e) Cyflwyno hysbysiadau atal dros dro (Adran 52 DCPHG 2004)</p>	<p>Cwblhawyd – Bu i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 14 ac Arbed) 2015 gyflwyno hysbysiadau o'r fath drwy ddod ag Adran 52 DCPHG 2004 i rym ar 23 Chwefror 2015.</p> <p>Darparwyd canllawiau ar hysbysiadau atal dros dro ym Mehefin 2015.</p>
<p>f) Pŵer i wrthod penderfynu ar geisiadau cynllunio ôl-weithredol ar gyfer datblygiad sy'n destun hysbysiad gorfodi (Adran 32 Deddf 2015)</p> <p>g) Pŵer i ofyn am gais cynllunio ôl-weithredol pan ellir rheoleiddio a rheoli datblygiad anawdurdodedig ag amodau cynllunio (Adran 43 Deddf 2015)</p> <p>h) Apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi (Adran 44 Deddf 2015)</p> <p>i) Diddymu'r gallu i apelio ar sail (a) pan fo'r penderfyniad i wrthod cais cynllunio wedi cael ei ategu yn yr apêl (Adran 45 Deddf 2015)</p> <p>j) Diddymu'r gallu i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio ôl-weithredol pan fo sail apelio (a) wedi methu (Adran 46 Deddf 2015)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cychwyn Adrannau 32 a 43 i 46 - Mawrth 2016 - Cyhoeddi canllawiau - Mawrth 2016
<p>k) Trosglwyddo cyfrifoldeb am benderfynu ar apelïadau yn erbyn hysbysiadau tir salw oddi ar yr Ynadon ac ar Lywodraeth Cymru (adran 48 Deddf 2015)</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - Cwblhawyd: Cyhoeddwyd ar 19 Mehefin, 'Deddfwriaeth eilaidd ar gyfer rheoli datblygu'. - Cychwyn Adran 48 - Medi 2016 - Cyhoeddi canllawiau - Medi 2016

Cysylltiadau â Phrosiectau Cynllunio Cadarnhaol eraill

Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol - Bydd canllawiau i gynorthwyo newidiadau deddfwriaethol i'r system orfodi yn cael eu nodi yn y Llyfr Rheoli Datblygu (gweler adran 3.2.)

5.4.3 Adolygiad o Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd

Cefndir

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 ("Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd") yn caniatáu rhai newidiadau i ddefnydd adeiladau neu dir heb angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil er mwyn archwilio a mesur natur y problemau oedd yn gysylltiedig â chrynodeiadau uchel o Dai Amlfeddiannaeth (TA), ac argymhellwyd atebion posibl. Bu i ['Adolygiad o Dai Amlfeddiannaeth \(Mai 2015\)'](#) argymhell newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i reoli lleoliad TA.

Hefyd, mae llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ehangach o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r hawliau datblygu cysylltiedig a ganiateir sy'n caniatáu newidiadau rhwng dosbarthiadau defnydd. Bydd yr adolygiad yn archwilio a yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn parhau i fod yn addas i'r diben, a'r cyfleoedd i ddarparu mwy o hyblygrwydd er mwyn caniatáu newid defnydd adeiladau neu dir heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Pwrpas

Nodir y newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd sy'n caniatáu i ADLlau reoli twf crynodeiadau TA yn y dyfodol ym mhapur ymgynghorol ['Diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth eilaidd ar gyfer rheoli datblygu yn ymwneud â: ymgynghoreion statudol, datganiadau dyluniad a mynediad, tai amlfeddiannaeth \(3 Awst 2015\)'](#)

Bydd yr adolygiad ehangach o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn gwerthuso'r posibilrwydd o dynnu ceisiadau cynllunio diangen o'r system reoli datblygu tra'n sicrhau bod effeithiau cynllunio a defnydd tir yn cael eu hystyried yn briodol. Mae'r adolygiad yn ategu gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o system gynllunio sy'n hwyluso datblygu priodol.

Amserlen Gweithredu

Er mwyn rheoli twf crynodeiadau TA yn y dyfodol, bydd newidiadau yn cael eu gwneud drwy Orchymynion fydd yn diwygio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir").

Bydd unrhyw newidiadau fydd yn deillio o'r adolygiad ehangach o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn arwain at fersiwn gyfunol ac wedi ei diweddarau o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.

Nodir yr amserlen ar gyfer eu cyflawni isod:

Gwelliannau	Camau Allweddol / Amserlenni
Newidiadau i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd er mwyn rheoli twf a chryodiadau Tai Amlfeddiannaeth yn y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth - <i>Cwblhawyd</i>: Cyhoeddwyd ar 3 Awst 2015 - Cyflwyno is-ddeddfwriaeth - Chwefror 2016
Adolygiad Ehangach o Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd	<ul style="list-style-type: none"> - Cyhoeddi'r ymchwil - Chwefror 2016 - Ymgynghoriad - Hydref 2016 - Is-ddeddfwriaeth yn dod i rym - Haf 2017 - Cyhoeddi canllawiau - Haf 2017

6. Rheoli Cynllunio a Datblygu yng Nghymru - prosiect Comisiwn y Gyfraith

Cefndir

Ym mis Tachwedd 2014 cytunodd Comisiwn y Gyfraith i gynnal prosiect ar gyfraith cynllunio yng Nghymru fel rhan o'i Ddeuddegfed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith. Bras amcan y prosiect yw adolygu'r gyfraith mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion er mwyn symleiddio a moderneiddio'r gyfraith. Er bod y cylch gorchwyl yn eang, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar reoli datblygu a'r berthynas â'r system cynllun datblygu.

Er mwyn hysbysu'r prosiect, bu i'r Comisiwn gynnal archwiliad beirniadol o'r ffordd yr oedd y broses rheoli datblygu yn gweithredu yn ôl y gyfraith ac yn ymarferol, a bu iddo archwilio'r posibilrwydd o atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng rheoli datblygu a gwneud cynlluniau.

Wrth ymgymryd â'r ymarferiad hwn, ni fu i'r Comisiwn ddarganfod gwendidau sylfaenol yn y system rheoli datblygu nac angen brys am ddiwygio sylweddol. Fodd bynnag, yr hyn oedd yn eglur oedd yr angen i symleiddio'r gyfraith yn gyffredinol. Yn benodol, bu i adolygiad Comisiwn y Gyfraith amlygu bod y gyfraith mewn perthynas â'r maes hwn yn ddiangen o gymhleth a'i bod, mewn rhannau, yn anodd ei deall.

Yn ystod yr adolygiad, ac ymgynghoriadau cynnar â ffocws iddynt, bu i randdeiliaid rannu eu pryderon ynglŷn â chymhlethdod diangen a diffyg hygyrchedd y gyfraith, a phawb bron yn dyheu i weld y gyfraith yn cael ei chyfuno.


Ailstrwythuro'r prosiect

Yn seiliedig ar yr adolygiad a'r ymgysylltu cynnar gan y Comisiwn, bydd y prosiect yn cael ei ailstrwythuro er mwyn canolbwyntio ar gyfuno a symleiddio deddfwriaeth cynllunio. Bydd yn cyflwyno argymhellion ynghylch telerau deddfwriaeth cynllunio syml a chyfunol yng Nghymru, er mwyn disodli ac integreiddio deddfwriaeth bresennol mewn Deddf neu Ddeddfau cynllunio ar gyfer Cymru.


Y Camau Nesaf

Bydd Comisiwn y Gyfraith yn paratoi papur cwmpasu fydd yn amcanu at sefydlu faint o ddiwygio sydd ei angen ar ddeddfwriaeth cynllunio yng Nghymru o safbwynt symleiddio a chyfuno. Mae'r Comisiwn yn disgwyl y bydd y papur cwmpasu yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2016 er mwyn derbyn sylwadau gan randdeiliaid. Gyda'r ymatebion i'r papur hwn yn gweithredu fel arweiniad, byddant wedyn yn paratoi papur ymgynghorol manwl ar gynigion mwy penodol a manwl.

Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol Amserlen Gweithredu - Perfformiad a Phenderfyniadau Cynllunio



Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol Amserlen Gweithredu - Polisi a Gwneud Cynlluniau



ALLWEDD

